Statistical Article
Erthygl Ystadegol

# Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18
# Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd Ardaloedd Lleol: Crynodeb o'r gwaith modelu a'r canlyniadau [1]

## Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**

**Crynodeb o'r Gwaith Modelu** **2**

**Canlyniadau Awdurdodau Lleol** **2**

**Mewnbynnau'r model** **5**

**Nodiadau ar y defnydd o erthyglau ystadegol** **6**



Dyddiad Cyhoeddi: 01/04/2020
Diweddariad nesaf: Nid yw'n allbwn rheolaidd


Awdur: Building Research Establishment Ltd ar gyfer y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Ebost: ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru
Ffôn: 0300 025 1053
Twitter: www.twitter.com/ystadegaucymru


1 Ceir nodiadau ar y defnydd o erthyglau ystadegol ar ddiwedd y ddogfen hon.

## 1. Cyflwyniad

Er mwyn ategu'r amcangyfrifon o lefelau tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2018, gwnaed rhagor o waith modelu er mwyn llunio data tlodi tanwydd amcangyfrifedig ar lefel ardal leol. Defnyddiwyd ffynonellau data ychwanegol ochr yn ochr â data Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 er mwyn modelu cyfran yr aelwydydd tlawd o ran tanwydd ar lefel Awdurdod Lleol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi amlinelliad byr o ganlyniadau amcangyfrifedig awdurdodau lleol.

Sylwer nad yw'r canlyniadau hyn yn cael eu cyfrif fel ystadegau swyddogol, maent yn seiliedig ar ddata wedi'u modelu i ddarparu lefelau dangosol o dlodi tanwydd ar lefel awdurdod lleol a dylid eu trin â gofal. Dylid ond eu defnyddio i edrych ar dueddiadau cyffredinol a nodi ardaloedd lle mae'r lefelau tlodi tanwydd yn arbennig o uchel neu isel. Ni ddylid eu defnyddio i adnabod tueddiadau dros gyfnod o amser.

## 2. Crynodeb o'r Gwaith Modelu

### Ffynonellau data

Roedd y model tlodi tanwydd ardal leol yn seiliedig ar ddata cenedlaethol o set ddata Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18. Er mwyn cymhwyso'r model, mae angen data ardal leol penodol am amrywiaeth o ffactorau demograffig, yn deillio o setiau data manwl a luniwyd ar lefel annedd gan Experian, a data cyfanredol o Gyfrifiad 2011.

### Modelu tlodi tanwydd

Cafodd y model ei greu drwy feddalwedd SPSS a defnyddiodd ddadansoddiad atchweliad lluosog o ystod o newidynnau demograffig, er mwyn dewis y rhai mwyaf defnyddiol o safbwynt ystadegol o ran rhagfynegi a oedd achos penodol yn achos o dlodi tanwydd. Defnyddiwyd y rhai a ddewiswyd (gweler adran 4) i ffurfio'r model terfynol, a gafodd ei gymhwyso i set ddata Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 ar lefel annedd (achos) cyn cael eu crynhoi i lefel Ardal Gynnyrch y Cyfrifiad gan ddefnyddio cyfansymiau aelwydydd o Gyfrifiad 2011. Yna cafodd y cyfansymiau tlodi tanwydd a'r cyfansymiau aelwydydd eu meincnodi a'u haddasu er mwyn adlewyrchu'r ffigurau tlodi tanwydd cenedlaethol a gyflwynwyd yn y prif adroddiad[2]. Yn olaf, cafodd y data eu crynhoi i lefelau Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ac Awdurdod Lleol.


## 3. Canlyniadau Awdurdodau Lleol

### Mapio tlodi tanwydd

Mae'r canlyniadau ar gyfer lefel Awdurdodau Lleol wedi cael eu harddangos yn Ffigur 1, gyda phob Awdurdod Lleol wedi'i liwio i adlewyrchu'r lefel gyfartalog o dlodi tanwydd yn yr ardal honno. Mae lliwiau mwy golau yn nodi cyfrannau tlodi tanwydd cyffredinol is ac mae lliwiau mwy tywyll yn dangos cyfrannau uwch. Mae'r gwerthoedd mewn cromfachau yn rhoi nifer yr Awdurdodau Lleol ym mhob categori.

[2] 'Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd ar gyfer Cymru: 2018'

**Map 1: Cyfran yr aelwydydd tlawd o ran tanwydd (diffiniad o 10%), fesul awdurdod lleol, Cymru, 2018**



## Canlyniadau awdurdodau lleol

Gallwn weld bod y cyfrannau amcangyfrifedig uchaf o dlodi tanwydd mewn awdurdodau lleol yn ardaloedd y canolbarth a'r gorllewin, yn enwedig Gwynedd (23% o aelwydydd yn dlawd o ran tanwydd) a Cheredigion (21%). Yn ardaloedd y de yr oedd y lefelau isaf i'w gweld yn bennaf ac amcangyfrifwyd bod llai na 9% o aelwydydd yn awdurdodau lleol megis Bro Morgannwg, Torfaen a Phen-y-bont ar Ogwr yn dlawd o ran tanwydd, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 12%.


Wrth edrych yn fanylach ar y modelu, gwelir ystod eang o dlodi tanwydd amcangyfrifedig ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Er enghraifft, mae lefel gyfartalog tlodi tanwydd yng Nghonwy'n agos at y cyfartaledd cenedlaethol, ond mae cyfrannau tlodi tanwydd yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is y sir yn amrywio o werthoedd isel iawn i rai uchel iawn. Rhaid pwysleisio y dylid ond defnyddio’r ffigurau modelu is-ranbarthol hyn i edrych ar dueddiadau cyffredinol a nodi ardaloedd lle mae lefelau tlodi tanwydd yn arbennig o uchel neu isel. Ni ddylid eu defnyddio i adnabod tueddiadau dros gyfnod o amser.

### Tabl 1: Tlodi tanwydd yn ôl awdurdod lleon, Cymru, 2018

| | Pob aelwyd [a] | Aelwydydd sy’n dlawd o ran tanwydd [a] | Canran yr aelwydydd sy’n dlawd o ran tanwydd |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 31,000 | 5,000 | 17% |
| Gwynedd | 54,000 | 12,000 | 23% |
| Conwy | 53,000 | 6,000 | 12% |
| Sir Ddinbych | 42,000 | 5,000 | 12% |
| Sir y Fflint | 66,000 | 6,000 | 9% |
| Wrecsam | 59,000 | 6,000 | 10% |
| Ceredigion | 33,000 | 7,000 | 21% |
| Sir Benfro | 55,000 | 8,000 | 15% |
| Sir Gaerfyrddin | 81,000 | 11,000 | 14% |
| Abertawe | 107,000 | 11,000 | 10% |
| Castell-nedd Port Talbot | 62,000 | 7,000 | 11% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 60,000 | 5,000 | 8% |
| Bro Morgannwg | 55,000 | 5,000 | 8% |
| Caerdydd | 147,000 | 14,000 | 9% |
| Rhondda Cynon Taf | 103,000 | 12,000 | 11% |
| Caerffili | 77,000 | 7,000 | 9% |
| Blaenau Gwent | 31,000 | 3,000 | 11% |
| Tor-faen | 40,000 | 3,000 | 8% |
| Sir Fynwy | 39,000 | 4,000 | 10% |
| Casnewydd | 63,000 | 6,000 | 9% |
| Powys | 60,000 | 10,000 | 17% |
| Merthyr Tudful | 25,000 | 3,000 | 10% |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon wedi’u modelu sy’n seiliedig ar Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

**Siart 2: Tlodi tanwydd yn ôl awdurdod lleol, Cymru, 2018**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon wedi'u modelu sy'n seiliedig ar Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

## 4. Mewnbynnau'r model

### Newidynnau'r mewnbwn terfynol

Roedd newidynnau allweddol y mewnbwn[3] i'r model tlodi tanwydd ardal leol fel a ganlyn:

- Y math o aelwyd, wedi'i gategoreiddio fel a ganlyn:
  - cyplau heb unrhyw blant dibynnol;
  - cyplau â phlant dibynnol;
  - rhieni unigol;
  - aelwydydd un person;
  - aelwydydd eraill â mwy nag un person.
- Oed yr annedd, wedi'i gategoreiddio fel a ganlyn:
  - cartrefi a adeiladwyd cyn 1919;
  - cartrefi a adeiladwyd rhwng 1919 a 1944;
  - cartrefi a adeiladwyd rhwng 1945 a 1980;
  - cartrefi a adeiladwyd ar ôl 1980.
- Y prif grŵp Sector Cyhoeddus yn ôl System Mosaic ar gyfer pob cod post. Mae hyn yn cael ei ddosbarthu i 15 o gategorïau yn seiliedig ar wybodaeth ddemograffig economaidd-gymdeithasol, ddaearyddol ac ariannol, ochr yn ochr â nodweddion eiddo. Ceir mwy o wybodaeth am y grwpiau hyn yma.
- Cyfran y cartrefi heb wres canolog, yn ôl Ardal Gynnyrch y Cyfrifiad.

[3] Y newidynnau a dynnwyd o Gronfa Ddata Aelwydydd y DU 2017 Experian Marketing a data cyfanredol Cyfrifiad 2011.

- Cyfran yr aelwydydd nad ydynt yn cynnwys teuluoedd na phobl sengl, yn ôl Ardal Gynnyrch y Cyfrifiad.
- Cyfran yr aelwydydd heb gymwysterau academaidd na galwedigaethol, yn ôl Ardal Gynnyrch y Cyfrifiad.

## 5. Nodiadau ar y defnydd o erthyglau ystadegol

Yn gyffredinol, mae a wnelo erthyglau ystadegol â dadansoddiadau untro lle na fwriedir eu diweddaru, yn y byrdymor o leiaf, a'u diben yw sicrhau bod y fath ddadansoddiadau ar gael i gynulleidfa ehangach nag a fyddai'n wir fel arall. Fe'u defnyddir yn bennaf i gyhoeddi dadansoddiadau archwiliadol mewn rhyw ffordd, er enghraifft:

- cyflwyno cyfres newydd o ddata arbrofol
- dadansoddiad rhannol o fater sy'n darparu man cychwyn defnyddiol i gyflawni rhagor o ymchwil ond sydd, serch hynny, yn ddadansoddiad defnyddiol yn ei rinwedd ei hun
- tynnu sylw at ymchwil sydd wedi'i chynnal gan sefydliadau eraill, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru neu fel arall, lle mae'n ddefnyddiol tanlinellu'r casgliadau, neu adeiladu ar yr ymchwil ymhellach
- dadansoddiad lle nad yw'r canlyniadau o ansawdd mor uchel â'r rhai yn ein datganiadau ystadegol a'n bwletinau arferol efallai, ond lle gellir dod i gasgliadau ystyrlon o hyd gan ddefnyddio'r canlyniadau.

Pan fo ansawdd yn broblem, gall hyn godi mewn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:

- ni ellir nodi'r cyfnod o amser a ddefnyddir yn gywir (a all ddigwydd pan ddefnyddir ffynhonnell weinyddol)
- ansawdd y ffynhonnell ddata neu'r data a ddefnyddir
- resymau eraill a nodir.

Fodd bynnag, bydd lefel yr ansawdd yn golygu nad yw'n cael effaith sylweddol ar y casgliadau. Er enghraifft, efallai na fydd yr union gyfnod o amser yn ganolog i'r casgliadau y gellir eu llunio, neu drefn maint y canlyniadau, yn hytrach na'r union ganlyniadau, sydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa. Nid yw'r dadansoddiad a gyflwynir yn gyfystyr ag Ystadegyn Gwladol, ond gellir ei ddefnyddio gydag allbynnau Ystadegau Gwladol a bydd, serch hynny, wedi cael ei ystyried yn ofalus a'i archwilio'n fanwl cyn ei gyhoeddi. Bydd asesiad o gryfderau a gwendidau'r dadansoddiad wedi'i gynnwys yn yr erthygl, er enghraifft cymhariaeth â ffynonellau eraill, ynghyd â chanllawiau ar sut y gellir defnyddio'r dadansoddiad, a disgrifiad o'r fethodoleg sydd ar waith.

Mae erthyglau yn dilyn yr arferion rhyddhau a ddiffinnir yn y protocol arferion rhyddhau ac, felly, er enghraifft, fe'u cyhoeddir ar ddyddiad a bennir ymlaen llaw yn yr un ffordd ag allbynnau ystadegol eraill.

Mae symbolau gwerth coll a ddefnyddir yn yr erthygl yn dilyn y safonau a ddefnyddir mewn allbynnau ystadegol eraill, fel yr amlinellir isod.

.. Nid yw'r eitem o ddata ar gael

. Nid yw'r eitem o ddata yn gymwys

- Nid yw'r eitem o ddata yn cyfateb i sero'n union, ond fe'i hamcangyfrifwyd yn sero neu'n llai na hanner y digid terfynol a ddangosir

* Mae'r eitem o ddata yn ddatgelol neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, oni nodir fel arall.